professional standards authority

# Sylwadau i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

## Awst 2019

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad y bobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk

1.2 Yn rhan o'n gwaith, rydym yn:

- Goruchwylio'r naw rheolydd gweithwyr iechyd a gofal ac yn adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar eu perfformiad
- Achredu cofrestrau ymarferwyr gofal iechyd mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan dan y gyfraith rwy'r rhaglen Cofrestrau Achrededig
- Cyflawni ymchwil ac yn cynghori pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig ar welliannau mewn rheoleiddio
- Hyrwyddo rheoleiddio cyffyrddiad cywir a chyhoeddi papurau ar bolisi ac ymarfer rheoleiddio.

### 2. Sylwadau cyffredinol

2.1 Croesawn y cyfle i ymateb i'r alwad am wybodaeth gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn rhan o'u craffu ar y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Yn flaenorol rydym wedi darparu sylwadau i ymgynghoriad llywodraeth Cymru ar y cynigion a gynhwysir yn y Bil.[1]

2.2 Rydym yn gyffredinol yn cefnogi cyflwyno dyletswydd gonestrwydd statudol ar gyfer darparwyr GIG yng Nghymru. Bydd hyn yn dod â Chymru yn gyfartal â Lloegr a'r Alban ac yn sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru yn ymroddedig i fod yn agored a gonest gyda chleifion a'u teuluoedd pan aiff pethau o chwith.

2.3 Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau y ceir cymaint o aliniad â phosibl gyda'r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol y mae'r holl reolyddion iechyd a gofal ar draws y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddynt. Ac mae hefyd yn allweddol

[1] Awdurdod Safonau Proffesiynol, *Sylwadau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Gwasanaethau sy'n addas i'r dyfodol'*. Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/others-consultations/2017/professional-standards-authority-response---welsh-government-services-fit-for-the-future-consultation.pdf?sfvrsn=eee67320_4

nad yw deddfwriaeth a rheoliadau cysylltiedig yn creu cymhlethdod atodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol trwy greu gwahanol drothwyon a gweithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd gonestrwydd ar draws y Deyrnas Unedig. Fe wyddom o'n gwaith polisi ac ymchwil pan fydd cydymffurfiad gyda safonau a gofynion yn rhy gymhleth y gall greu rhwystr i weithwyr proffesiynol wneud y peth iawn.

2.4 Mae hefyd yn bwysig ystyried ffyrdd eraill i fewnosod y ddyletswydd gonestrwydd mewn sefydliadau ynghyd â deddfwriaeth, trwy ystyriaeth o'r rhwystrau ehangach i weithwyr proffesiynol siarad allan a bod yn agored a gonest. Tra bod y ddyletswydd gonestrwydd yn wahanol i brosesau i annog codi pryderon neu chwythu'r chwiban mewn rhai achosion, mae'r rhwystrau a galluogwyr yn debyg. Mae tystiolaeth o Loegr yn arddangos nad yw deddfwriaeth ynddo'i hun yn ddigonol, a bod angen newid diwylliannol ehangach i sicrhau bod ymarferwyr yn teimlo wedi eu cefnogi i fod yn agored a gonest gyda chleifion a'u teuluoedd pan fydd angen.

2.5 Rydym hefyd yn gefnogol o'r bwriad i greu llais cryfach i'r cyhoedd a chleifion yng Nghymru ac yn cydnabod bwriad Llywodraeth Cymru i ddelio â rhai o'r heriau a nodwyd yn y system gyfredol. Fodd bynnag, nid ydym eisiau gweld colli cryfderau'r system gyfredol o ymgysylltu gyda chleifion trwy Gynghorau Iechyd Cymuned, a bydd yn bwysig sicrhau bod y corff newydd wedi ei ddarparu â'r pwerau i gynrychioli llais y claf yn effeithiol ac annibynnol.

2.6 Isod rydym wedi amlinellu rhai sylwadau manylach ar rywfaint o'r elfennau penodol o'r Bil, ond byddem yn hapus i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach i'r Pwyllgor os oes angen.

## 3. Sylwadau manwl

### Dyletswydd gonestrwydd

3.1 Rydym yn gefnogol iawn o'r cynigion i gyflwyno dyletswydd gonestrwydd statudol ar gyfer darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu sicrhau ymroddiad i onestrwydd ar draws y Deyrnas Unedig yn dilyn cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd statudol yn Lloegr yn 2014 ac yn yr Alban yn 2018. Mae yna hefyd y ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol a gyflwynwyd ar gyfer cofrestryddion y naw o reolyddion iechyd a gofal ar draws y Deyrnas Unedig yn 2014, yn dilyn cyhoeddi datganiad ar y cyd o ymroddiad gan wyth o'r naw o reolyddion.[2]

3.2 Fodd bynnag, awgrymwn y gallai fod yn ddefnyddiol rhoi ystyriaeth bellach i'r trothwy ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd gonestrwydd a su ti sicrhau aliniad ar draws y Deyrnas Unedig, os yn bosibl.

3.3 Fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, mae'r Bil yn datgan y bydd y ddyletswydd gonestrwydd yn weithredol pan fydd defnyddiwr gwasanaeth (y

[2] Datganiad ar y cyd gan Brif Weithredwyr rheolyddion statudol gweithwyr gofal iechyd, *Openness and honesty - the professional duty of candour.* Ar gael ar: https://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/joint_statement_on_the_professional_duty_of_candour.pdf

mae gofal iechyd yn cael ei neu wedi ei ddarparu iddo) yn dioddef canlyniad anffafriol. Mae canlyniad anffafriol wedi ei ddiffinio fel: ‘os yw’r defnyddiwr yn profi, neu os yw’r amgylchiadau o'r fath y gallai’r defnyddiwr brofi, niwed annisgwyl neu anfwriadol sydd **yn fwy na minimol’** (pwyslais wedi ei ychwanegu). Amlinella’r datganiad o fwriad polisi a ddarperir i'r Pwyllgor y bydd y diffiniad o ‘fwy na minimol’ yn cael ei sefydlu mewn canllaw.

3.4 Mae hyn yn ymddangos i fod yn wahanol i’r trothwyon a amlinellir ar gyfer y ddyletswydd gonestrwydd statudol yn Lloegr a’r ddyletswydd gonestrwydd yn yr Alban. Yn Lloegr, mae’r rheoliadau yn cyfeirio at ‘ddigwyddiad diogelwch hysbysadwy’ a allai arwain at farwolaeth y defnyddiwr gwasanaeth (o ganlyniad i’r digwyddiad yn hytrach na chwrs naturiol salwch neu gyflwr sylfaenol y defnyddiwr gwasanaeth) neu ‘niwed difrifol, niwed cymedrol neu niwed seicolegol parhaus i'r defnyddiwr gwasanaeth.’[3] Yn yr Alban, mae’r rheoliadau yn cyfeirio at ‘ddigwyddiadau anfwriadol neu annisgwyl’ sy'n arwain at ddeilliannau penodol.[4]

3.5 Yn ein hadroddiad diweddar yn edrych ar y cynnydd gan y rheolyddion proffesiynol o ran mewnosod dyletswydd gonestrwydd proffesiynol, fe glywsom gan randdeiliaid bod cysondeb o ran gweithredu’r trothwyon parthed y ddyletswydd gonestrwydd yn bwysig i helpu gweithwyr proffesiynol i ddeall y disgwyliadau arnynt. Roedd hyn yn cynnwys cysondeb rhwng rheolyddion proffesiynol, ond hefyd mwy o eglurder ar y berthynas rhwng y ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol a statudol. Nododd rhai ymatebwyr i'r holiadur a gyhoeddom i hysbysu’r adroddiad bod yna orgyffwrdd rhwng y dyletswyddau proffesiynol a statudol a bod hyn yn achosi dryswch ar adegau, neu hyn yn oed rwystredigaeth, i weithwyr proffesiynol. [5]

3.6 Rydym yn cydnabod y gall fod ffactorau eraill yn dylanwadu ar benderfyniadau ar sut i ddiffinio pryd ddylai'r ddyletswydd gonestrwydd statudol fod yn weithredol ym mhob gwlad. Fodd bynnag, fel y dywedom yn ein hymateb i reoliadau'r Alban, rydym yn awgrymu y byddai'n gwella eglurder a dealltwriaeth o’r ddyletswydd pe byddai trothwy cyffredin yn cael ei ddefnyddio ledled y Deyrnas Unedig.[6] Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys ymagwedd gyffredin i’r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol a’r dyletswyddau statudol ym mhob gwlad.

---

[3] Rheoliadau’r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau Reoledig) 2014: Rheoliad 20 – y ddyletswydd gonestrwydd. Ar gael ar: https://www.cqc.org.uk/guidance-providers/regulations-enforcement/regulation-20-duty-candour#full-regulation

[4] Deddf Iechyd (Tybaco, Nicotin ac ati a Gofal) (Yr Alban) 2016, *Gweithdrefn dyletswydd gonestrwydd*. Ar gael ar: http://www.legislation.gov.uk/asp/2016/14/part/2/crossheading/duty-of-candour-procedure/enacted

[5] Awdurdod Safonau Proffesiynol 2019, *Telling patients the truth when something goes wrong - Evaluating the progress of professional regulators in embedding professionals’ duty to be candid to patients.* Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/research-paper/telling-patients-the-truth-when-something-goes-wrong---how-have-professional-regulators-encouraged-professionals-to-be-candid-to-patients.pdf?sfvrsn=100f7520_6

[6] Awdurdod Safonau Proffesiynol 2015, *Response to the Scottish Government consultation: Proposals to introduce a statutory duty of candour for health and social care services*. Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/consultation-response/others-consultations/2015/scottish-government-duty-of-candour.pdf?sfvrsn=75a57f20_9

3.7 Yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyflwyno'r ddyletswydd statudol yn 2017, fe amlygom y mynegwyd rhywfaint o bryder yn Lloegr nad yw'r ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei fewnosod mewn gwasanaeth ac nad oedd yn arwain at newid diwylliant. Fe wnaethom hefyd amlygu ein siom nad oeddem wedi gweld y ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol yn cael ei adlewyrchu yn yr honiadau a ddrafftiwyd yn erbyn y cofrestrydd neu gyfeiriadau at y ddyletswydd gonestrwydd mewn penderfyniadau panel ar gyfer y rheolyddion a oruchwylir gennym.[7] Ceir manylion pellach ar y cynnydd gan y rheolyddion proffesiynol o ran mewnosod gonestrwydd yn ein hadroddiad diweddar.[8]

3.8 Darparodd yr Awdurdod gyngor ar gyfer yr Adran Iechyd ar weithredu'r ddyletswydd gonestrwydd proffesiynol yn 2013 a hefyd gynnal ymchwil yn 2013 i onestrwydd, datgeliad a bod yn agored, gan amlygu nifer o rwystrau oedd yn atal gweithwyr iechyd proffesiynol rhag gwneud y peth iawn[9]. Gall y rhwystrau hyn fod yn berthnasol i adrodd r hyd yn oed ymddygiad niweidiol a throseddol. Dengys yr adroddiad i gam-drin ac esgeulustod o gleifion gan staff yng nghartref gofal Winterbourne View yn Swydd Gaerloyw yn 2011[10] pan fydd pobl yn dweud eu dweud na weithredir ar hyn pob tro gan y rhai gyda goruchwyliaeth reoleiddiol, ac mae hefyd yn arddangos na ddylai'r rhai mewn safle o awdurdod allu hawlio anwybodaeth fel esgus dros fethu ag atal cam-drin.

3.9 Byddem yn hapus iawn i gyfrannu rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'n gwaith ar onestrwydd neu ddarparu mewnbwn pellach ar sut all Llywodraeth Cymru geisio mewnosod y ddyletswydd gonestrwydd yng Nghymru.

## Corff Llais y Bobl

3.10 Fel y nodwyd, rydym yn gefnogol iawn o'r bwriad i greu llais cryfach i'r cyhoedd a chleifion yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwn i'r OECD yn ei adroddiad yn 2016 ar iechyd a gofal yng Nghymru, amlygu rôl bwysig y Cynghorau Iechyd Cymuned (CHCs) o ran ymgysylltu â chleifion a sicrhau bod llais cleifion yn cael ei glywed ynghyd ag awgrymiadau i gynyddu eglurder swyddogaethau a gwella craffu ar y GIG.[11] Mae'n bwysig felly nad yw

[7]Ibid.
[8] Awdurdod Safonau Proffesiynol 2019, *Telling patients the truth when something goes wrong - Evaluating the progress of professional regulators in embedding professionals' duty to be candid to patients.* Ar gael ar: https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/research-paper/telling-patients-the-truth-when-something-goes-wrong---how-have-professional-regulators-encouraged-professionals-to-be-candid-to-patients.pdf?sfvrsn=100f7520_6
[9] Awdurdod Safonau Proffesiynol 2013, *Candour, disclosure and openness - Learning from academic research to support advice to the Secretary of State*. [Ar-lein] Ar gael ar: http://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/policy-advice/candour-disclosure-and-openness-2013.pdf?sfvrsn=6 [Cyrchwyd: 15/08/17]
[10] Adolygiad yr Adran Iechyd: Adroddiad Terfynol, *Transforming care: A national response to Winterbourne View Hospital.* [Ar-lein] Ar gael ar: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/213215/final-report.pdf [Cyrchwyd: 18/08/17]
[11] OECD Reviews of Health Care Quality: Y Deyrnas Unedig 2016. [Ar-lein] Ar gael ar: http://www.keepeek.com/Digital-Asset-Management/oecd/social-issues-migration-health/oecd-reviews-of-health-care-quality-united-kingdom-2016_9789264239487-en#.WcuSMTVry2w#page227 [Cyrchwyd: 29/09/17]

cryfderau'r system gyfredol o ymgysylltu gyda chleifion trwy Gynghorau Iechyd Cymuned yn cael ei golli a bod y corff newydd wedi ei ddarparu â'r pwerau i gynrychioli llais y claf yn effeithiol ac annibynnol.

3.11 Nodwn y sylwadau gan Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned parthed sut i sicrhau bod gan gorff newydd llais y bobl yr offer angenrheidiol i gynrychioli anghenion defnyddwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn effeithiol, yn cynnwys pwysigrwydd ymgysylltu uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth yn cael mynediad i ofal.[12] Yn ein rôl yn cynrychioli buddiannau cleifion wrth sicrhau bod rheolyddion gweithwyr iechyd a gofal yn gwarchod y cyhoedd, rydym wedi gweld pwysigrwydd a gwerth ymgysylltu uniongyrchol gyda, ac ymchwil gyda, aelodau'r cyhoedd ac awgrymwn y dylai hyn fod yn flaenoriaeth i unrhyw gorff llais y bobl yng Nghymru yn y dyfodol.

## 4. Rhagor o wybodaeth

4.1 Cysylltwch â ni os yr hoffech drafod unrhyw agwedd o'r ymateb hwn mewn manylder. Gallwch gysylltu â ni yn:


**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

E-bost: daisy.blench@professionalstandards.org.uk
Gwefan: www.professionalstandards.org.uk
Ffôn: 020 7389 8013


[12] Cynghorau Iechyd Cymuned yn ymateb i gyhoeddi'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/899/BCHCW%20Press%20Release%20new%20Bill%20%2817%20June%202019%29%20FINAL%20English.pdf